

Rhestr o wrthrychau i gyfeirio atynt.

Rydyn ni wedi gwneud awgrymiadau ar gyfer gwrthrychau/lluniau cyfeiriadol; gallwch chi newid y rhestr yma i fod yn addas i'ch disgyblion. Rydyn ni'n awgrymu casglu'r gwrthrychau/lluniau cyn dechrau'r gwersi ar Hawliau Plant.

Erthygl 1: Mae gan bawb o dan 18 oed yr hawliau hyn – **Bathodyn/Baner Pen-blwydd Hapus yn 18**

Erthygl 2: Mae'r hawliau hyn gan bob plentyn – **Arwydd hafal (=)**

Erthygl 3: Rhaid i oedolion wneud beth sydd orau i mi – **llaw ('help llaw')**

Erthygl 4: Rhaid i'r llywodraeth sicrhau bod fy hawliau'n cael eu parchu – **llun o'r Senedd neu 10 Stryd Downing**

Erthygl 5: Dylai'r llywodraeth barchu hawl fy nheulu i'm helpu i wybod am fy hawliau – **Poster Gwybod eich Hawliau**

Erthygl 6: Dylwn i gael cefnogaeth i fyw a thyfu - **planhigyn/blodyn**

Erthygl 7: Mae gen i hawl i enw, ac i berthyn i wlad – **pasbort**

Erthygl 8: Mae gen i hawl i hunaniaeth – **drych**

Erthygl 9: Mae gen i hawl i fyw gyda theulu sy'n gofalu amdana i – **Pobl pypeddi bysedd**

Erthygl 10: Mae gen i hawl i weld fy nheulu os ydyn nhw'n byw mewn gwlad arall – **awyren**

Erthygl 11: Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghymryd allan o'r wlad yn anghyfreithlon – **cerdyn symbol Erthygl 11**

Erthygl 12: Mae gen i hawl i gael gwrandawriad, a chael fy nghymryd o ddifri – **Meicroffon**

Erthygl 13: Mae gen i hawl i gasglu gwybodaeth a'i rhannu – **Cerdyn llyfrgell/cyfrifiadur**

Erthygl 14: Mae gen i hawl i gael fy meddyliau a'm credoau fy hun, ac i ddewis fy nghrefydd, gydag arweiniad fy rhieni – **Eitem grefyddol**

Erthygl 15: Mae gen i hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau – **llun o grŵp yn chwarae**

Erthygl 16: Mae gen i hawl i gadw rhai pethau'n breifat – **clo clap**

Erthygl 17: Mae gen i hawl i gasglu gwybodaeth mewn llawer o ffyrdd, cyhyd â bod hynny'n ddiogel – **Papur newydd**

Erthygl 18: Mae gen i hawl i gael fy magu gan y ddau riant os yw hynny'n bosib – **llun o deulu neu ddoliau**

Erthygl 19: Mae gen i hawl i gael amddiffyniad rhag niwed neu driniaeth wael – **blanced**

Erthygl 20: Mae gen i hawl i amddiffyniad arbennig a help os bydda i'n methu byw gyda fy nheulu fy hun – **cerdyn symbolau Erthygl 20**

Erthygl 21: Mae gen i hawl i'r gofal gorau os caf fy mabwysiadu – **cerdyn symbolau Erthygl 21**

Erthygl 22: Os ydw i'n ffoadur, mae gen i'r un hawliau â phlant a aned yn y wlad honno – **cerdyn symbolau Erthygl 22**

Erthygl 23: Os oes gen i anabledd, mae gen i hawl i ofal ac addysg arbennig – **logo ysgol**

Erthygl 24: Mae gen i hawl i ofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân a bwyd da – **Ffrwyth/Llysieuyn**

Erthygl 25: Os dydw i ddim yn byw gyda fy nheulu, dylai pobl wirio'n gyson mod i'n ddiogel ac yn hapus – rhestr wirio

Erthygl 26: Dylai fy nheulu gael yr arian maen nhw angen i helpu i'm magu – **arian tegan**

Erthygl 27: Mae gen i hawl i dŷ go iawn, bwyd a dillad – **bricsen Lego/Duplo**

Erthygl 28: Mae gen i hawl i addysg – **Cyfrifiannell/Pren Mesur**

Erthygl 29: Mae gen i hawl i addysg sy'n datblygu fy mhersonoliaeth, parch at hawliau pobl eraill a'r amgylchedd – **seren yr wythnos/tystysgrif**

Erthygl 30: Mae gen i hawl i siarad fy iaith fy hun a dilyn ffordd fy nheulu o fyw – **swigen siarad gyda gwahanol ieithoedd/clip sain o wahanol ieithoedd**

Erthygl 31: Mae gen i hawl i ymlacio a chwarae – **Pêl**

Erthygl 32: Ddylwn i ddim gorfod gwneud gwaith peryglus – **het galed/arwydd gwaith peryglus**

Erthygl 33: Dylwn i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau peryglus – **Potel foddion**

Erthygl 34: Ddylai neb gyffwrdd â fi mewn ffyrdd sy'n gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus, yn anniogel neu'n drist – **cerdyn symbolau Erthygl 34**

Erthygl 35: Ddylwn i ddim cael fy nghipio, fy ngwerthu, na'm masnachu – **tag pris**

Erthygl 36: Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n saff rhag pethau a allai niweidio fy natblygiad – **cerdyn symbolau Erthygl 36**

Erthygl 37: Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghosbi mewn modd creulon na niweidiol – **cell carchar Lego**

Erthygl 38: Chaf fi ddim ymuno â'r fyddin nes mod i'n 15 – **Milwr tegan**

Erthygl 39: Mae gen i hawl i help os ydw i wedi cael fy niweidio, fy esgeuluso neu fy nhrin yn wael – **Stethosgôp**

Erthygl 40: Mae gen i hawl i help cyfreithiol a thriniaeth deg os cefais fy nghyhuddo o dorri'r gyfraith – **cyffion/gafel barnwr**

Erthygl 41: Os yw ein gwlad yn ein trin yn well na'r C.U., dylen ni ddal ati gyda'r gwaith da – **llun mawr o fawd i fyny neu wyneb yn gwenu**

Erthygl 42: Dylai pawb wybod am CCUHP – **cerdyn symbolau Erthygl 42**